

Gwella bywydan gyda'n gilydd

Gwasanaeth Therapiwtig i Gleifion Mewnol Niwroseiciatreg

Yn cyfuno therapi personol a gwaith ystyrion â dulliau rheoli risg cadarn ar gyfer dynion ag anghenion niwroseiciatrig cymhleth, gan gynnwys rhai sydd â hanes fforensig.

Cygnnet Afon Las, Sir Ddinbych



Cygnnet Afon Las yw ein Gwasanaeth Therapiwtig newydd sbon i Gleifion Mewnol Niwroseiciatreg yng Nghymru, ac mae disgwyl iddo agor yng Ngwanwyn 2027. Ein nod yw darparu lle diogel i fyw bywyd ystyrion.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i gefnogi dynion ag anghenion niwroseiciatrig cymhleth sy'n golygu ei bod yn anodd iddynt gael neu gynnal lleoliadau cymunedol confensiynol oherwydd eu cyfuniad o anghenion niwrolegol, gwybyddol, ymddygiadol, iechyd meddwl a risg. Mae Cygnnet Afon Las wedi'i gofrestru fel ysbyty iechyd meddwl, a gall gefnogi unigolion sy'n cael eu cadw o dan adrannau fforensig a sifil o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Gall dynion sy'n cael eu cefnogi yn Cygnnet Afon Las fod â hanes fforensig sylweddol, a gallant fod o dan gyfyngiadau cyfreithiol cyfredol, er nad yw hyn yn ofyniad i gael eu derbyn. Rydyn ni'n darparu amgylchedd sy'n ddiogel, strwythuredig ac â'r cyfyngiadau lleiaf i unigolion nad oes modd eu cefnogi mewn lleoliadau nyrsio neu gymunedol traddodiadol. Rydyn ni'n cynnig gofal sy'n ystyriol o seiciatreg a seicoleg, gyda ffocws ar reoli risg, urddas, ac ansawdd bywyd.



Dynion



18+ oed



**a hŷn
15 gwely**

Y bobl rydyn ni'n eu cefnogi:

- > Dynion 18 oed a hŷn, sydd wedi cael diagnosis o'r canlynol:
 - Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd, wedi'i gadarnhau neu a amheuir, yn cynnwys y rhai sydd wedi digwydd drwy drawma, anocsia, strôc, tiwmor, firws neu haint
 - Cyflwr niwroddirwyol fel Clefyd Huntington
 - Clefyd ar yr Ymennydd yn gysylltiedig ag Alcohol
- > Fframweithiau cyfreithiol gan gynnwys Deddf Iechyd Meddwl - adrannau fforensig a sifil
- > O bosibl yn ymgylfwyno ag ymddygiad sy'n herio
- > O bosibl â hanes o dderbyniadau aciwt dro ar ôl tro
- > O bosibl angen rhaglen titradu meddyginiaethau
- > O bosibl yn ymgylfwyno â risgiau yn cynnwys: dianc, hunan-niweidio a/neu gamddefnyddio sylweddau

Ein Dull Gweithredu

Rydyn ni'n cydnabod nad yw metrigau traddodiadol, fel cyflymder rhyddhau, yn cynnwys yr holl amrediad o adferiad i bawb. I lawer o unigolion, mae canlyniadau ystyrion yn cael eu diffinio gan sefydlogrwydd hirdymor, mwy o ddiogelwch, cynhalieth weithrediadol, a llai o drallod. Mae ein dull gweithredu yn blaenoriaethu ansawdd bywyd cynaliadwy yn fwy na thrawsnewid cyflym. Â'r gwasanaeth yng nghefn gwlad, mae'n canolbwyntio ar fywyd arferol yn hytrach na threfn sefydliadol. Mae pobl yn cael eu cefnogi i ddatblygu patrymau bywyd bob dydd unigol, gyda gwaith ystyrion yn rhan annatod o'r model therapiwtig.

Mae gweithdai, garddwriaeth, hwsmonaeth anifeiliaid, cynnal a chadw'r amgylchedd, coginio a gweithgareddau ymarferol a chreadigol eraill yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyfrifoldeb, cyflawniad, trefn a chysylltiad. Mae'r gweithgareddau'n cael eu haddasu yn ôl galluoedd, diddordebau, risgiau a dyheadau'r unigolyn, gan alluogi pobl i gyfrannu at fywyd y gwasanaeth yn hytrach na dim ond derbyn gofal ynddo.

Os oes cynnydd pellach yn bosibl, bydd yn cael ei gefnogi. Os lleoliad hirdymor yw'r canlyniad mwyaf priodol, mae'r pwyslais yn parhau ar gynnal potensial, manteisio i'r eithaf ar ymreolaeth, a sicrhau bod bywyd yn cynnwys pwrpas, dewis ac ansawdd. Mae'r amgylchedd bywyd pob dydd hwn yn seiliedig ar oruchwyliaeth niwroseiciatrig ryngddisgyblaethol arbenigol. Mae fformiwleiddio unigol, rheoli risg yn gadarnhaol, a llywodraethiant clinigol cadarn yn galluogi rhyddid a chyfleoedd priodol i gael cydbwysedd rhwng hynny a diogelu'r unigolyn ac eraill.

I bobl sydd o dan gyfyngiadau cyfreithiol, mae gofal a gweithgareddau'n cael eu cynllunio o fewn gofynion eu fframwaith cyfreithiol unigol a'r broses o fformiwleiddio risg. Nid yw hanes fforensig ynddo'i hun yn diffinio'r unigolyn na'r gwasanaeth.

Mae ein fim rhyngddisgyblaethol arbenigol yn cynnwys:

- > Seiciatrydd Ymgynghorol
- > Tîm Nyrsio Arbenigol
- > Seicoleg Glinigol
- > Therapi Iaith a Lleferydd
- > Therapi Galwedigaethol
- > Ffisiotherapi
- > Cynorthwyr Gweithgaredd a Therapi

Ein cyfleusterau:

- > Ystafelloedd gwely en-suite (mae nifer ohonynt yn hygyrch)
- > Ystafelloedd therapi a gweithgareddau
- > Lolfeydd cymunedol ac ardaloedd bwyta
- > Mannau i ymwelwyr
- > Mannau awyr agored diogel a hygyrch



Ein Nod:

Darparu amgylchedd diogel ac arbenigol lle mae pobl yn gallu:

- Profi sefydlogrwydd a diogelwch
- Mwynhau perthnasoedd a gweithgareddau ystyrion
- Byw gydag urddas, dewis ac annibyniaeth
- Cael y lefel orau o lesiant ac ansawdd bywyd

Ein Proses Atgyfeirio

- 1 Bydd yr atgyfeiriad yn cael ei anfon at RachaelChamberlain@cygnethealth.co.uk / 07872401048 neu 0808 164 4450 / chcl.referrals@nhs.net
- 2 Bydd y fim asesu yn trefnu ac yn cynnal yr asesiad
- 3 Rhoddir adborth i ddweud a yw ein gwasanaeth yn gallu ateb yr unigolyn
- 4 Bydd pecyn asesu yn cael ei greu, yn cynnwys cynlluniau gofal a gwybodaeth am gyllid
- 5 Cytunir i dderbyn, a threfnir cynlluniau ar gyfer pontio gyda'r fim atgyfeirio ar ôl cadarnhau bod y lleoliad yn cael ei dderbyn

Ble rydyn ni?

Cygneth Afon Las
Carrog, Corwen, Sir Ddinbych
LL21 9BG



CYG-2138 | Date of Preparation: 21/10/26

Ewch i cygnetgroup.com i gael rhagor o wybodaeth | Ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol: [f](#) [i](#) [in](#) [d](#)

Uniondeb

Ymddiriedolaeth

Grymuso

Parch

Gofal